

# Teuluoedd sydd â phroblemau alcohol ac iechyd meddwl

Templed ar gyfer gweithio mewn partneriaeth



Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth

Gwell arfer ar sail gwell gwybodaeth

## Awduron

**Patricia Kearney, Enid Levin, Gwen Rosen  
a Mary Sainsbury**

Cyhoeddwyd 2003  
gan y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er  
Rhagoriaeth

© Sefydliad Gofal Cymdeithasol er  
Rhagoriaeth Cedwir pob hawl. Ni cheir  
atgynhychu neu drosglwyddo unrhyw ran  
o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf  
neu unrhyw ffordd, electronig, mecanyddol,  
llungopïo, recordio neu fel arall, na'i storio  
mewn unrhyw system adfer o unrhyw fath,  
heb ganiatâd y cyhoeddwr ymlaen llaw.


# Cydnabyddiaeth

**Ariannwyd y prosiect ymchwil a datblygu hwn gan Weithgor y Gwasanaeth Iechyd Gwladol trwy gynllun grant s64 yr Adran Iechyd.**

Hoffem ddiolch i John Allcock a'i gydweithwyr yn yr Adran Iechyd am gomisiynu'r prosiect hwn. Estynnwn ddiolch arbennig i staff y sefydliadau niferus a fu'n hael gyda'u hamser a'u harbenigedd ond y mae'n rhaid iddynt barhau'n ddiennw.

Cydnabyddwn y cymorth a ddarparwyd gan holl aelodau'r grŵp ymgynghorol, dan gadeiryddiaeth David Joannides ar ran Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn safbwyntiau'r tîm datblygu arfer ac nid ydynt o reidrwydd yn safbwyntiau unrhywun o aelodau'r grŵp ymgynghorol.

# Cynnwys



	Tudalen
Cydnabyddiaeth	1
Cyflwyniad	4
Gwerthoedd ac egwyddorion	7
Cychwyn ar y gwaith	9
Llunio protocol	11
Protocol cyffredinol	12
Enghreifftiau o arfer	13
1. Rhoi cyfarwyddiadau a gofynion	13
2. Bod yn awdurdodol	16
3. Cyswllt â deddfwriaeth, polisi a gweithdrefnau	17
4. Bod yn hawdd i'w ddefnyddio	20
5. Helpu pobl i feddwl ac ymddwyn yn wahanol	25
Defnyddio'r protocol	27
Cyfeiriadau	30

# Advisory group members

<b>Judy Armstrong,</b>	Gwasanaeth Addysg Bwrdeistref Lewisham, Llundain	<b>Wendy Robinson,</b>	Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant
<b>Sue Baker,</b>	Alcohol Concern	<b>Emma Stone,</b>	Joseph Rowntree Foundation
<b>Marie Diggins,</b>	Tîm Iechyd Meddwl Oedolion Bwrdeistref Lewisham, Llundain	<b>Richard Velleman,</b>	Ymddiriedolaeth GIG Partneriaeth Iechyd Meddwl Avon a Wiltshire/Prifysgol Caerfaddon
<b>Adrian Falkov,</b>	Clinig Ymgynghori Teuluol, Ymddiriedolaeth Iechyd Meddwl De Llundain a Lewisham	<b>Michele Wates,</b>	Rhwydwaith Rhieni Anabl
<b>David Joannides,</b>	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol/ Gwasanaethau Cymdeithasol Dorset		

## Tîm Datblygu Arfer y cyfeirir ato fel y 'tîm' yn yr adroddiad

**Lynette Bolitho**

**Patricia Kearney**

**Enid Levin**

**Gwen Rosen**

**Mary Sainsbury**

# Cyflwyniad



Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â darparu gwasanaethau wedi'u cydlynu o ansawdd uchel i deuluoedd lle mae plant yn byw gyda rhieni sy'n camddefnyddio alcohol neu sydd â phroblemau iechyd meddwl. Yn unol â pholisi'r llywodraeth, mae'n cydnabod y dylid hyrwyddo lles plant a'u cadw'n ddiogel, lle bynnag y bo modd, trwy roi cymorth i rieni wrth iddynt fagu eu plant a thrwy sicrhau nad yw plant yn ymgymryd a rolau gofal gormodol neu amhriodol yn eu teulu.

Mae'n hyrwyddo defnyddio protocolau ar y cyd i hybu arfer da ac yn cynnig templed i asiantaethau ei ddefnyddio wrth ddatblygu mentrau lleol.

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan yr Adran Iechyd, gan y Sefydliad Gwaith Cymdeithasol Cenedlaethol (NISW) i ddechrau, ac yna gan y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE). Mae'n cyd-fynd â'r gwaith a wneir gan Joseph Rowntree Foundation yn *Supporting disabled adults in their parenting role* (Wates, 2002).

Gall y gwaith o gydbwysu hawliau ac anghenion y plant a'r oedolion yn y teuluoedd hyn arwain at ddilemâu anodd. Mae pob rhiant am wneud ei orau ac ar brydiau, mae'r rhai sydd â phroblemau alcohol ac iechyd meddwl yn ymwybodol iawn o effaith eu salwch neu eu harfer o gamddefnyddio alcohol ar eu plant. Efallai eu bod yn gyndyn i ofyn am help oherwydd eu bod yn ofni y caiff eu plant eu cymryd oddi arnynt. O ganlyniad, nid ydynt yn rhannu eu problemau'n hawdd gyda'r

gwasanaethau a allai eu lleddfu. Gallai'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â gwasanaethau a'r trefniadau sefydliadol sy'n newid yn gyflym mewn gwasanaethau ac ar draws gwasanaethau, waethygu'r anhawster hwn. Ceir nifer o lwybrau gwahanol i wasanaethau ac ni all un gwasanaeth fodloni anghenion pob teulu ar hyn o bryd.

## Pam bod protocolau'n ddefnyddiol

Nododd adroddiad cyntaf y tîm *Working with families: alcohol, drug and mental health problems* (Kearney, Levin a Rosen, 2000) pa mor ddefnyddiol yw protocolau ar y cyd sy'n nodi'r trefniadau cydweithio rhwng asiantaethau. Mae adborth gan yr asiantaethau yn awgrymu bod protocolau yn ddefnyddiol mewn dwy ffordd, gan bod y cydweithio y mae angen ei wneud i'w paratoi yn fodel ar gyfer arferion gwaith da wrth eu gweithredu. Felly, dylai protocol ar gyfer gweithio ar y cyd:

- fod yn ganlyniad asiantaethau'n cydweithio i'w baratoi, wrth ffurfio dealltwriaeth gyffredin o rolau, gwerthoedd a gweithredoedd;
- cryfhau a nodi'r camau i'w cymryd er mwyn cydweithio wrth asesu, cynllunio gofal, rheoli risg, monitro ac adolygu ar y cyd mewn achosion unigol.

Mae'r tîm yn argymhell y dylai asiantaethau lunio protocol cyffredinol sy'n berthnasol i asiantaethau o bob math ac i bob rhiant sy'n cysylltu â

gwasanaethau. Yna, gellir cynnwys gwybodaeth ategol sy'n berthnasol i wahanol grwpiau neu asiantaethau gwasanaeth yn ôl yr angen. Gallai'r wybodaeth hon gynnwys geirfaeod, diffiniadau ac esboniad pellach o ddeddfwriaeth anghyfarwydd. Er enghraifft, gallai 'Gwybodaeth i Riení' fod yn un atodiad. Mae'r ffurf hwn yn pwysleisio natur gyffredin y gwaith ar draws asiantaethau ac anghenion rhieni. Nodir manylion enghreifftiau o'r ffurf hwn yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

### Protocolau a'u cyfyngiadau

Mae'r dulliau hyn yn rhan angenrheidiol o *repertoire* asiantaethau gan annog arfer eglur, cyson a chymwys. Fodd bynnag, nid ydynt yn amodau digonol y ynddynt eu hunain i sicrhau bod teuluoedd yn cael help dibynadwy. Yn anad dim, nid ydynt yn cymryd lle ymarferwyr arbenigol, hyderus gyda chefnogaeth dda mewn gwasanaethau oedolion a phlant sy'n gallu ystyried sefyllfa unigol a'i harfarnu'n feirniadol, a gwneud penderfyniadau synhwyrol wedi'u seilio ar wybodaeth gyda defnyddwyr y gwasanaeth.

Felly, wrth adolygu arfer pan fydd pethau'n mynd o chwith, nid yw'n dderbyniol honni ein bod "wedi dilyn y weithdrefn", neu ein bod "yn gweithredu yn unol â chyfarwyddyd", neu hyd yn oed bod gennym "y gweithdrefnau yn eu lle ond na chawsant eu gweithredu". Mae'r gwaith hwn yn gymhleth ac yn gofyn llawer ac mae'n bwysig bod yr holl ymarferwyr sy'n ymwneud ag ef wedi'u hyfforddi, yn fedrus ac yn gallu manteisio ar y strwythurau a'r cymorth sefydliadol sy'n bodoli i hwyluso gwaith wedi'i gydlynu a chanlyniadau a phrosesau da i deuluoedd.

Mae'r protocolau a archwiliwyd yn amrywio o ran cwmpas, hyd, cynnwys ac ansawdd. Dewisodd y tîm enghreifftiau o amrywiaeth o brotocolau i ddangos yr enghreifftiau a nodir yn y templed. Mae'r tîm yn ystyried bod y prosesau sy'n dilyn paratoi'r protocol yn hynod o bwysig, er enghraifft, gweithredu; lledaenu; cynnal; monitro; adolygu; diweddarau a gwerthuso. Mae gwerthuso canlyniadau, yn enwedig o safbwynt teuluoedd, yn hollbwysig.

### Pam bod templed yn ddefnyddiol

Nododd adroddiad cyntaf y tîm werth defnyddio templed mewn gwasanaethau cyffuriau. Mae hyn yn cynnwys y fantais o ddefnyddio canllawiau'r Standing Conference on Drug Abuse (SCODA) y gellir datblygu trefniadau lleol arnynt. Mae'r ail adroddiad hwn yn ystyried yn benodol pa mor ddefnyddiol y gallai'r dull gweithredu hwn fod ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac alcohol.

Diffiniad templed yn yr adroddiad hwn yw patrwm, model neu gynllun y gellir ei ddefnyddio fel canllaw wrth ddatblygu gwasanaethau ac y gellir ei addasu i amodau lleol. Mae'n manteisio ar brofiadau'r asiantaethau hynny a ddarparodd ddogfennau i'r tîm, gan nodi sut y datblygwyd y rhain. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar wasanaethau iechyd meddwl ac alcohol, er y byddai nifer o'r prosesau a'r egwyddorion allweddol yn berthnasol i'r holl wasanaethau i oedolion, gan gynnwys cyffuriau. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig templed i ddatblygu dulliau gweithredu gwell, sy'n canolbwyntio'n fwy ar y teulu, tuag at weithio gyda theuluoedd lle ceir problemau iechyd meddwl ac alcohol.

Mae'r tîm wedi seilio'r templed ar y polisïau, y protocolau a'r gweithdrefnau a ddarparwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol a'r Pwyllgorau Amddiffyn Plant Ardal (ACPCs) yn dilyn cais y tîm i'r holl Gynghorau sydd â Chyfrifoldebau Gwasanaethau Cymdeithasol (CSSRs) yn Lloegr. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd trafodaethau gydag unigolion cyswllt a enwyd a threfnwyd ymweliadau ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol dethol i archwilio datblygiad arfer a materion gweithredu ymhellach. Mae'r ymarferion hyn wedi galluogi'r tîm i archwilio dros 70 o bolisïau, protocolau a chanllawiau ysgrifenedig, a ffurfio templed a allai fod o ddefnydd i awdurdodau nad oes ganddynt brotocolau neu sy'n eu paratoi ar hyn o bryd, ac er bod y nifer hwn yn gostwng, mae'n sylweddol o hyd. Gallai'r templed fod o ddefnydd i asiantaethau hefyd wrth ddarparu meincnod i adolygu eu harferion llinell flaen a'u gweithdrefnau cyfredol, a cheisio'u gwella.

## Defnyddio templed i lunio protocol lleol

Roedd rhai o'r asiantaethau a ymatebodd wedi addasu protocolau yr oeddent wedi'u gweld yn gweithio'n dda mewn asiantaethau eraill. Adroddodd yr awdurdodau sydd wedi datblygu polisïau a phrotocolau rhwng asiantaethau bod llawer iawn o waith ac amser yn mynd i'w llunio, cytuno arnynt a sicrhau eu bod yn cael eu "perchenogi" a'u defnyddio ar draws asiantaethau a thimau. Prin oedd yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol ac ACPCs a oedd wedi cyhoeddi protocolau gweithio ar y cyd yn ddiweddar, oedd wedi cychwyn o'r cychwyn. Yn hytrach, roeddent wedi cysylltu ag adrannau â chanllawiau arfer a pholisïau ysgrifenedig eisoes. Mae'r

dull gweithredu hwn yn arbed amser ond mae'n hanfodol bod yr holl randdeiliaid allweddol yn rhan lawn o'r broses leol. Mae hyn yn golygu na chaiff y protocolau eu dwyn i mewn a'u gorfodi.

Dylid cyfeirio'n arbennig at ddwy fenter gwasanaeth ar y cyd a fu'n hynod o ddylanwadol yn y ffordd hon.

- Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Camden gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Cymunedol Camden ac Islington ac Ymddiriedolaeth GIG Royal Free Hamstead wedi llunio protocolau gwasanaeth ar y cyd i deuluoedd yr effeithir arnynt gan salwch meddwl a rhieni sy'n camddefnyddio alcohol a chyffuriau. Mae nifer o brotocolau eraill yn cydnabod y dogfennau hyn yn ffurfiol fel ffynhonnell.
- Yn Swydd Rhydychen, mae *Oxfordshire Interagency Policy for Parents with Disabilities, Sensory Impairment, Illness, Addiction and/or Mental Health Difficulties* wedi bod yn ddylanwadol wrth hyrwyddo cyfranogiad defnyddwyr a chysyniad cynhwysol rhieni anabl fel sail i wasanaethau.

Mae'r profiadau hyn yn awgrymu ei bod yn bwysig i asiantaethau gael eu trefniadau eu hunain i weithio gyda theuluoedd a chydag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill. Yna, gall y rhain fod yn sail ar gyfer prosesau cydweithrediadol yn y maes gwaith hwn.

# Gwerthoedd ac egwyddorion

**Mae gweithio ar y cyd mewn gwasanaethau i blant y mae gan eu rhieni broblemau iechyd meddwl neu alcohol yn manteisio ar nifer o ddatblygiadau ym maes gofal cymdeithasol, a drafodir yn fras isod.**

- Mae'r gronfa wybodaeth sy'n hysbysu'r rhai sy'n cynnig cymorth i blant a theuluoedd ac sy'n amddiffyn plant, bellach yn fwy nag erioed. Gall gwell triniaethau ar gyfer y rhai sy'n dioddef salwch meddwl difrifol olygu llai o sgil effeithiau, mantais bwysig i rieni sy'n gofalu am blant.
- Mae bod yn rhiant yn dasg gymhleth ac yn un y dylanwadir arni gan nodweddion y rhiant, y plentyn a'r amgylchedd. Nid yw'r union adeg pan fydd angen help ar rieni neu pan fydd pethau'n dechrau mynd o chwith, bob amser yn amlwg, ac eithrio pan edrychir yn ôl. Mae ymchwil yn dangos bod llawer o deuluoedd yn ceisio ymdopi am gyfnod hir gyda lefel angen uchel, cyn cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Ceir mwy o ymwybyddiaeth o anghenion rhieni anabl. Ceir nifer o anghenion sy'n gyffredin i rieni sydd â phroblemau iechyd meddwl ac alcohol a rhieni anabl eraill. Ar hyn o bryd, ceir llawer o ddadlau ynghylch y cysylltiadau rhwng y cyfrifoldeb i sicrhau bod plant yn ddiogel ac i ddarparu gwasanaethau i deuluoedd i helpu pobl i fod yn rhieni.
- Rhoddir cydnabyddiaeth gynyddol i anghenion, tasgau a rolau plant a phobl ifanc y mae eu rhieni'n anabl.

Mae hyn yn cynnwys sut i amddiffyn y plant hyn orau rhag bod yn rhy ofalgar o'u rhieni neu ofalu am eu rhieni mewn ffordd amhriodol, a sicrhau eu lles a'u datblygiad eu hunain. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau amserol a phriodol i rieni i gynorthwyo eu rolau fel rhieni.

- Mae angen i asiantaethau gydweithio a cheir pryder ynghylch sut i sicrhau hyn. Caiff nifer o wasanaethau eu had-drefnu i ffurfio grwpiau gofal ar wahân. Mae gweithwyr yn aml yn canolbwyntio ar yr oedolion neu'r plant ac yn teimlo'n ddibrofiad wrth symud y tu allan i'r hyn a welant fel eu cylch gorchwyl.

I grynhoi, gwelodd y tîm rai egwyddorion allweddol sy'n sail i brotocol y templed. Mae lles plant yn hollbwysig bob amser. Rhaid eu hamddiffyn rhag niwed go iawn neu niwed tebygol bob amser. Mae gan bob gweithiwr, gan gynnwys y rhai sy'n darparu gwasanaethau i oedolion, ddyletswydd gofal a chyfrifoldeb i nodi plant a allai fod mewn perygl a gweithredu'n briodol. Mae rhieni yn dymuno gwneud eu gorau i ofalu am eu plant. Mae'n bolisi gan y llywodraeth i hyrwyddo lles plant trwy gyfrwng cymorth priodol ac amserol.

## Cyfrinachedd

Mae gan weithwyr o bob asiantaeth, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio gydag oedolion, gyfrifoldeb i nodi unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl ac alcohol ac sy'n rhieni. Dylent ymgynghori â rhieni ynghylch y

gwasanaethau a'r help y mae eu hangen arnynt i'w galluogi i ofalu am eu plant. Dylid trafod unrhyw feysydd sy'n peri pryder a chyfranogiad gwasanaethau plant a theuluoedd yn llawn gyda'r rhieni, ar yr amod nad yw hyn yn peryglu diogelwch y plentyn.

Mae diffyg consensws ynghylch rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd yn parhau i amharu ar y cydweithio rhwng gweithwyr proffesiynol, asiantaethau a theuluoedd. Rhoddir arweiniad awdurdodol yn:

*Working Together to Safeguard Children (1999) paragraffau 7.27 i 7.46.*

*Framework for the Assessment of Children in Need (2000) paragraffau 346-357.*

# Cychwyn ar y gwaith

Diben protocolau yw cofnodi ffordd o weithredu y cytunwyd arni, i sicrhau nod y cytunwyd arno. Mae'r ffordd o gytuno ar hynny a'r rhai sy'n cytuno arno, yn angenrheidiâu hanfodol i weithio llwyddiannus. Yn aml, bu'r protocolau yn ganlyniad llawer o waith cudd. Nodir manylion hyn isod oherwydd ei bod yn hawdd anghofio gwaith cudd. Y prosesau hyn yw hanfodion protocolau llwyddiannus.

## Nodi angen a chanlyniadau a ddymunir

Ar y cychwyn cyntaf, bydd o gymorth nodi'r hyn yr ydych yn dymuno'i gyflawni a sut y byddwch yn mesur eich llwyddiant wrth ei gyflawni. Efallai y gwelwch y byddwch yn addasu hwn gydag amser a thrwy gydweithio, ond bydd amcanion a nodir yn eglur ar yr adeg hon yn cynorthwyo cydweithio. Bydd cytuno a rhannu dealltwriaeth ynghylch yr egwyddorion allweddol a amlinellir yn yr adroddiad hwn o gymorth yn ystod y cyfnod cynnar hwn.

## Nodi cyfranwyr allweddol

Dylech benderfynu pa asiantaethau, a pha unigolion o'r asiantaethau hyn, i'w cynnwys, yn ogystal â diben y cyfranogiad hwn. Gall y cyfuniad o cyfranwyr allweddol fod yn gymhleth, ac efallai y bydd asiantaethau'n ystyried y grŵp lleiaf a mwyaf effeithiol i'w gyfuno, naill ai fel cam cyntaf, neu fel grŵp penodol y cytunwyd arno, i ddatblygu'r gwaith.

## Sut i gynnwys defnyddwyr y gwasanaeth a'u cefnogwyr

Mae defnyddwyr y gwasanaeth a'u cefnogwyr yn perthyn i grŵp y cyfranwyr allweddol. Fodd bynnag, nododd y tîm mai anaml y mae defnyddwyr y gwasanaeth a'u cefnogwyr yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r protocolau. Nododd y tîm fod cynnwys ac ansawdd y protocol yn wahanol pan fo defnyddwyr y gwasanaeth yn arwain y gwaith. Byddai'r tîm yn dadlau bod cyfraniad defnyddwyr y gwasanaeth yn rhan hanfodol o'r gwaith hwn, er y gallai fod yn faes lle y mae gan asiantaethau'r medrau a'r profiad lleiaf ynddo.

## Nodi deddfwriaeth berthnasol ac arweiniad sy'n cyd-fynd â hi

Ceir deddfwriaeth bwysig ac arweiniad cenedlaethol yn ymwneud â phlant a theuluoedd, iechyd meddwl, anabledd a gofalwyr, gan gynnwys nifer cynyddol o Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i asiantaethau a gweithwyr proffesiynol lunio a chytuno ar eu trefniadau manylach eu hunain yn lleol, sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ac arweiniad. Rhaid i brotocolau lleol gynnwys cyfeiriadau at arweiniad a deddfwriaeth genedlaethol a chael eu hintegreiddio mewn arfer a pholisi lleol sy'n bodoli eisoes.

Gan y cyhoeddir deunydd cenedlaethol ar ffurf dogfennau "annibynnol" yn aml, bydd angen i weithredu lleol gynnwys trefniadau gweithio ar y cyd sy'n

cynnwys ymwybyddiaeth o ystod y ddeddfwriaeth a'r arweiniad sy'n berthnasol. Bydd hyn yn golygu gweithio gydag ystod ehangach o arweiniad a chyfraith na'r hyn sy'n arferol i'r holl rai dan sylw.

### **Nodi'r hyn sy'n bodoli eisoes a'r hyn y mae angen ei integreiddio o hyd**

Bydd gan bob asiantaeth rai protocolau a pholisïau cyffredinol eisoes, er enghraifft, yn ymwneud ag amddiffyn plant. Dylai'r protocol cyswllt ddiffinio'r holl feysydd y dylai'r polisïau hyn weithredu ynddynt.

### **Nodi unrhyw fylchau wrth gydweithio**

Dylai'r cydweithredu ar y lefel hon ddatblygu trefniadau sy'n bodoli eisoes ar gyfer cydweithio, megis systemau cyfeirio rhwng gwasanaethau, cronfeydd data a rennir a systemau i nodi teuluoedd y mae angen gwasanaethau integredig arnynt. Os nad yw'r rhain yn bodoli, bydd angen eu creu.

Bydd y camau rhagarweiniol hyn yn helpu i gytuno ar gynllun gwaith a rennir:

- llenwi unrhyw fylchau a nodwyd wrth gydweithio;
- sicrhau cyfranogiad defnyddwyr y gwasanaeth;
- sicrhau cyswllt â'r map polisi lleol a chenedlaethol;
- cysylltu ag unrhyw brotocolau sy'n bodoli eisoes;
- archwilio a sicrhau consensws ymarferol ar:
  - ◆ werthoedd ac egwyddorion
  - ◆ geirfa
  - ◆ diffiniadau o gysyniadau allweddol (er enghraifft,

cyfrinachedd, rhieni anabl, gofalwyr ifanc)

- ◆ ffiniau cyfrifoldeb i asiantaethau ac unigolion
- ◆ cytuno ar y safonau y mae'r protocol yn ceisio'u cynnal, gan gynnwys ei berthynas gydag agendâu rheoli perfformiad cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt yn lleol.

# Llunio protocol



**Protocol yw'r neges y mae'r sefydliad yn ei rhoi i'w ymarferwyr ynghylch yr hyn i'w wneud a'r rheswm dros ei wneud, hynny yw, gwerthoedd a datganiadau polisi y sefydliad, a sut i'w wneud, hynny yw, ei brosesau gweithredu a'i arweiniad ar arfer. Mae protocol yn cyfuno sefydliad cymwys a gweithwyr galluog.**

Mae'r adran flaenorol wedi amlinellu'r 'gadwyn' sy'n arwain at weithredu protocol. Mae'r adran hon yn manteisio ar y deunydd a ddarperir gan asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Nododd y tîm rai nodweddion cyffredin, a geir trwy gyfrwng datblygiad lleol, ar wahân fel arfer, gan roi enghreifftiau. Nododd rai nodweddion unigol hefyd y mae'n ymddangos eu bod yn cryfhau protocol neu'n ateb rhai o'r problemau y mae eraill wedi'u cael. Mae nifer o'r nodweddion hyn yn ganlyniad rhesymegol i ddarganfod a dilyn y prosesau a amlinellwyd yn yr adran flaenorol.

Mae protocol yn ceisio rhoi cyfarwyddiadau ac arweiniad cyffredin, diamwys i weithwyr mewn sefyllfaoedd penodol. Mae'n fwyaf defnyddiol pan fo'r rhain:

- y tu allan i brofiad bob dydd y gweithiwr;
- yn eu cynnwys mewn meysydd arfer neu gyda chydweithwyr nad ydynt yn gweithio gyda nhw fel arfer;
- yn gofyn am weithredu cyflym ond gofalus;

- yn herio arfer gweithiwr a/neu'r diffiniadau gweithrediadol y maent yn gyfarwydd â nhw.

Efallai y bydd gweithwyr yn y sefyllfaoedd hyn yn teimlo'n bryderus, heb fedrau ac yn ansicr ynghylch eu ffeithiau. Dylai protocol roi digon o wybodaeth a sicrwydd i weithredu, er mwyn sicrhau bod barn a medrau proffesiynol yn cael eu lle unwaith eto.

Hyd yn hyn, mae'r dull gweithredu hwn yn gweddu i unrhyw brotocol arfer ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gweithio gyda theuluoedd lle mae gan y rhieni broblemau iechyd meddwl neu alcohol yn faes lle byddai mantais benodol yn deillio o brotocolau, yn enwedig gan bod gweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn wynebu cyfres gymhleth ychwanegol o gysylltiadau gwasanaeth. I rieni, gallai'r cymhlethdodau hyn amharu ar eu gallu i fanteisio ar wasanaethau. I weithwyr, gallent darfu ar y cyfle i gynnig cymorth i deuluoedd neu gynnwys gweithwyr proffesiynol eraill. Hanfod arfer da wrth weithio ar draws ffiniau asiantaethau a gwasanaethau yw rhannu nodau, dealltwriaeth ac iaith. Gallai hyn olygu dod o hyd i ffyrdd o newid arferion, agweddau a gwasanaethau. Mae'r protocolau gorau yn y sampl a archwiliwyd gan y tîm wedi dangos y symudiadau hyn, felly dylai protocol helpu pobl i ystyried a gweithredu'n wahanol hefyd. Gellir gweld y nodweddion hyn mewn nifer o'r protocolau, er y cânt eu ffurfio a'u mynegi mewn gwahanol ffyrdd, fel y mae'r enghreifftiau'n dangos.

Yn ystod y prosiect hwn, nododd y tîm newid sylfaenol yn y ffordd o feddwl a fydd ynddo'i hun yn cael effaith gadarnhaol a sylweddol ar y problemau y mae'r protocolau hyn yn ceisio'u datrys. Er enghraifft, mae protocolau Hampshire a Bolton yn atgoffa eu staff o hawliau a dyletswyddau rhieni, gan nodi pwysigrwydd deall y berthynas rhwng gofal plant ac ymatebion amddiffyn plant. Daeth y catalydd ar gyfer y newid hwn yn y ffordd o feddwl, o'r diffiniad a arweiniwyd gan ddefnyddwyr y gwasanaeth o "rieni anabl", sy'n cynnwys rhieni sydd â phroblemau iechyd meddwl, alcohol a chyffuriau. Mae'r dull gweithredu hwn yn sail i ddogfennau polisi Swydd Rhydychen a Northamptonshire. Mae dogfen bolisi Swydd Rhydychen yn nodi pwysigrwydd cyfraniad defnyddwyr y gwasanaeth yn ei ddatblygiad: "Dylanwadwyd ar y polisi hwn gan ddatblygiad arfer mewn awdurdodau lleol eraill; adroddiad yr Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, *A Jigsaw of Services*; polisi a chanllawiau yr Adran Iechyd; ymchwil a phrofiad teuluoedd sy'n cynnwys rhieni anabl/sâl yn genedlaethol ac yn Swydd Rhydychen."

Mae cynnwys rhieni yn gwneud gwahaniaeth mewn sawl ffordd. Mae rhieni mewn sefyllfa dda i nodi'r hyn a allai fod y rhwystrau agweddol, strwythurol, ariannol ac eraill tuag at ddefnyddio gwasanaeth. Gallant helpu i nodi nodweddion gwasanaeth nad yw'n gwarthnodi ac wrth werthuso arfer newydd. Yn ogystal, gallant gynnig cyngor ar yr angen am wybodaeth y gellir cael gafael arni'n rhwydd hefyd a sut i'w darparu.

Felly, dylai protocol da:

- Roi cyfarwyddiadau a gofynion;
- Bod yn awdurdodol;
- Cael ei gysylltu â deddfwriaeth, polisi a gweithdrefnau;
- Bod yn hawdd i'w ddefnyddio;
- Helpu pobl i feddwl ac ymddwyn yn wahanol;
- Cynnwys dull gweithredu wedi'i arwain gan ddefnyddwyr.

Mae rhai o'r nodweddion hyn yn gyd-ddibynnol, yn wir, mae'r enghreifftiau yn y sampl yn aml yn dangos mwy nag un nodwedd.

## Protocol cyffredinol

**Mae'r enghreifftiau yn yr adroddiad hwn yn awgrymu'n gryf mai protocol cyffredinol sydd orau, gan gynnwys deunydd penodol ac atodol ynghylch gweithio gyda phroblemau iechyd meddwl, alcohol a chyffuriau.**

Mae hyn yn cyfateb â'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Bobl Hŷn gyda'i Broses Asesu Sengl, sy'n set gyffredinol o nodweddion i'w defnyddio'n lleol. Un enghraifft o'r dull gweithredu hwn yw protocol Bournemouth, a luniwyd gan ACPC a'r Tîm Gweithredu Cyffuriau (DAT), sy'n cynnwys disgwyliadau eglur o weithdrefnau lleol.

# Enghreifftiau o arfer

Caiff deunydd arfer ei gynnwys:

- mewn bocs, pan fydd yn ddyfyniad uniongyrchol;
- fel pwynt bwled, pan fydd yn ddisgrifiad o enghraifft;
- fel copi uniongyrchol o ddeunydd a ddarparwyd gan asiantaethau.

Mae'r tîm yn ddiolchgar i'r asiantaethau a roddodd eu caniatâd i atgynhyrchu eu gwaith yn yr adroddiad hwn. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos ffyrdd o weithredu syniadau. Gan eu bod oll yn cynrychioli gwaith sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd, ni fydd rhai o'r enghreifftiau hyn yn rhai cyfredol yn yr asiantaethau bellach oherwydd y bydd datblygiad y protocol wedi symud ymlaen.

## 1. Rhoi cyfarwyddiadau a gofynion

Mae cyfarwyddiadau a gofynion ynghylch tasgau a rôl yn delio â'r pryder "lle mae fy swydd yn gorffen?" y mae llawer o weithwyr yn ei wynebu. Mae'r enghreifftiau yn yr adran hon yn ceisio sicrhau bod yr anghyfarwydd yn fwy cyfarwydd gan egluro cyfrifoldebau unigol a chyfrifoldebau asiantaethau.

- Mae protocol Brent yn cynnwys atodiad sy'n cynnwys cyfeiriadau a rhifau cyswllt ar gyfer yr holl dimau ac asiantaethau sy'n ymwneud â gofal i deuluoedd sydd â phroblemau cyffuriau a neu alcohol, sef 29 i gyd. Er bod angen diweddarau'r nodwedd ddefnyddiol hon, mae'n dangos i'r staff yr amrediad o asiantaethau sy'n ymwneud â'r gwaith ac y gallant gysylltu â nhw i gael help.

*Dylai unrhyw asesiad claf ystyried bob amser a oes ganddo neu ganddi blant neu fel arall, unrhyw gyswllt sylweddol gyda phlant.... Cwestiynau safonol i'w gofyn i bob claf: A oes gennych unrhyw blant neu a ydych erioed wedi cael plant? A ydych yn gofalu amledrych ar ôl neu'n cael cyswllt gydag unrhyw blant?*

**Arweiniad Asesu Arfer Amddiffyn Plant ac Iechyd Meddwl ACPC Nottinghamshire a Dinas Nottingham**

*Protocol gwaith ar y cyd: iechyd meddwl a gofal plant: Dylai'r holl gofnodion ddangos yr holl weithwyr a gwasanaethau sy'n ymwneud ag unrhyw aelod o deulu cleient iechyd meddwl dan 18 oed. Dylai cofnodion plant nodi cyfranogiad y gwasanaethau iechyd meddwl*

**SSDs Hampshire, Portsmouth a Southampton ac Ymddiriedolaethau Iechyd perthnasol**

*Y nod yw gweld a oes angen cyfeirio at dîm gwasanaethau Plant y Gwasanaethau Cymdeithasol o ganlyniad i bryderon amddiffyn plant, ac os nad oes, sut y gellir cynorthwyo'r rhiant a rhoi cymorth iddoliddi er mwyn bodloni anghenion eraill a nodwyd yn achos y plentyn. Oni bai bod pryderon ynghylch amddiffyn plant yn amlwg, gellir trefnu asesiad dros nifer o gysylltiadau gan arwain at ganlyniad cychwynnol cyn pen mis fel arfer.*


**Arweiniad arfer a pholisi amddiffyn plant rhwng asiantaethau tîm Gweithredu Cyffuriau Dorset ac ACPCs Bournemouth, Dorset a Poole**

Roedd rhai protocolau yn cynnwys siartiau llif a oedd yn rhoi dewis cyflym ac amgen i'r testun. Yr enghraifft a ddangosir yw


protocol gwasanaeth ar y cyd Camden, a fabwysiadwyd gan nifer o asiantaethau.

## Protocol Gwasanaeth ar y Cyd Camden i Blant a Theuluoedd y mae Afiechyd Meddwl yn Effeithio arnynt

Ffigwr 1: Model Cyfeirio/Ymateb Cychwynnol i Blant a Theuluoedd y mae Afiechyd Meddwl yn Effeithio arnynt



**Ffigwr 2: Model Cynllunio Gofal ac Asesu i Blant a Theuluoedd y mae Afiechyd Meddwl yn Effeithio arnynt.**



**Ffigwr 3: Cynllunio Gofal ac Asesu: Lefelau Ymyrryd.**

Cyfeirio/Asesu ar Hyd Continwrm Gofal	Ymateb/Asesiad a Chynllunio Gofal
<b>Brys:</b> Pryderon Aciwt: pryderon amlwg ynghylch amddiffyn plant a/neu argyfwng iechyd meddwl.	<b>Anghenion Brys:</b> Ar y lefel angen fwyaf difrifol neu frys, dylid cynnal aseiad ar y cyd gan weithwyr plant a theuluoedd a gweithwyr iechyd meddwl wrth iddynt gydweithio'n agos. Dylid paratoi cynlluniau ar y cyd a'u hadolygu ar y cyd.
<b>Arwyddocaol:</b> Pryderon iechyd Meddwl neu Fagu Plant: mae'r gofal plant yn peri pryder ond nid oes angen ymateb brys i amddiffyn plant a/neu mae iechyd meddwl rhiant yn peri pryder ond nid oes angen ei asesu ar frys.	<b>Anghenion Arwyddocaol:</b> Dylai gweithwyr plant a theuluoedd a gweithwyr iechyd meddwl lunio aseidiadau ar wahân o'r angen ond cydweithio i ffurfio cynlluniau gofal gyda'r teulu.
<b>Peri pryder:</b> materion ynghylch iechyd Meddwl/Magu Plant: mae angen rhoi cymorth i'r teulu a/neu gymorth gwasanaeth iechyd meddwl i'r rhiant.	<b>Peri pryder:</b> Gallai gwasanaethau plant neu deuluoedd neu wasanaethau iechyd meddwl asesu anghenion a darparu cymorth naill ai gwasanaethau cymorth teuluol (megis gofal dydd) a/neu wasanaethau iechyd meddwl cefnogol (megis cynghori).
<b>Ymdopi:</b> Teuluoedd Hunangynhaliol. Ni cheir unrhyw bryder ynghylch lles plant ac mae'r rhiant yn rheoli ei iechyd meddwl ei hun gyda chymorth gofal primaidd a chymorth y teulu.	<b>Ymdopi:</b> Mae'r rhain yn rhieni sydd â phroblemau iechyd meddwl ac sy'n gallu gweithredu'n ddigonol a chynnig gofal priodol gyda chymorth gwasanaethau gofal sylfaenol a chyffredinol yn ogystal â'r teulu.

## 2. Bod yn awdurdodol

Mae angen i'r holl weithwyr wybod o ble y mae'r awdurdod ar gyfer y cyfarwyddiadau a'r gofynion hyn yn dod. Dyma lle y mae eglurder sefydliadol yn cynorthwyo ymddygiad unigol. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Mae gwasanaethau iechyd meddwl Dorset yn rhoi statws cylchlythyr rheoli i'w protocol, sy'n ddogfen "orfodol".
- Mae tudalen agoriadol Gweithdrefnau Pwyllgorau Amddiffyn Plant De Swydd Efrog yn nodi statws y ddogfen yn eithaf manwl.
- Mae Nottingham yn rhoi awdurdod i'w ddogfennau trwy gynnwys llofnod yr holl brif weithredwyr perthnasol, sef Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Sirol Nottinghamshire, Prif Weithredwyr Awdurdod Iechyd Gogledd Notts., Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Canol Notts., Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Nottingham, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dinas Nottingham, a Phrif Weithredwyr Awdurdod Iechyd Nottingham, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Iechyd a Chymunedol Bassetlaw, ac Ysbyty Rampton.

Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ofyn i staff weithio ar draws ffiniau asiantaethau a gwasanaethau, gan ddangos i'r staff bod eu hasiantaeth eu hunain yn cymeradwyo'r protocol hwn a'u bod wedi helpu i'w lunio. Nododd y tîm nad oedd yr holl brotocolau wedi cael eu datblygu gan ACPCs yn unig, os o gwbl. Nododd rhai asiantaethau nad hon fu'r ffordd ymlaen fwyaf cynhyrchiol, a'u bod yn hytrach wedi'i leoli mewn Ymddiriedolaethau neu

asiantaethau eraill pan dybiwyd ei bod yn fwy tebygol y byddai perchnogaeth gan yr asiantaethau hyn yn fwy tebygol o gael ei gyflawni os byddent yn arwain y gwaith. Roedd y partneriaethau a weithiodd yn ail neu drydydd ymgais weithiau.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Bournemouth: menter ar y cyd gan yr ACPC a'r DAT.
- Bolton: menter lechyd Meddwl/Amddiffyn Plant trwy'r ACPC.
- Datblygwyd protocol Hampshire gan reolwyr comisiynu perthnasol ar draws yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol (SSD) ac Ymddiriedolaethau Iechyd Meddwl (MHTs)
- Arweiniwyd gwaith Hartlepool gan y DAT lleol.
- Gweithiodd Peterborough trwy'r MHT/SSD.
- Mae Ymddiriedolaeth Partneriaeth Iechyd Meddwl Avon a Wiltshire wedi llunio dogfen aml-asiantaeth *See the Adult, See the Child*. Cytunir ar hwn gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai Swindon, Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Wiltshire a Swindon "ac asiantaethau eraill y cytunir arnynt".

Mae rhai protocolau'n cynnwys datganiad gwerthoedd ynghylch rhyngwynebu:

- Mae gwasanaethau Amddiffyn Plant a Gofal Plant ac Iechyd Meddwl Surrey wedi datblygu protocol penodol ar gyfer cysylltiadau a chyfathrebu ar draws y gwasanaethau amrywiol.

*Bydd yr holl sefydliadau yn Brent yn trin rhieni a merched beichiog sy'n defnyddio cyffuriau alneu alcohol yn yr un modd ag unrhyw rieni eraill y mae angen eu cymorth a'u gwasanaethau arnynt. Mae gan bob sefydliad ddyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn Brent.*

**Canllawiau ar gyfer gweithio rhwng asiantaethau yn nhudalen flaen datganiad polisi Bwrdeistref Brent, Llundain**

*Mae Awdurdodau Iechyd Dwyrain a Gorllewin Surrey a Gwasanaethau Cymdeithasol Surrey wedi cytuno ar yr protocol hwn ac maent yn disgwyl i'r holl Ymddiriedolaethau sy'n darparu gwasanaethau iechyd Meddwl ei ddilyn.*

**Amddiffyn/Gofal Plant ac Iechyd Meddwl Oedolion Awdurdodau Iechyd Dwyrain a Gorllewin Surrey ac SSD Surrey**

### **3. Cyswllt â deddfwriaeth, polisi a gweithdrefnau**

Rhaid i waith ar y cyd ystyried y gyfraith ac unrhyw arweiniad cysylltiedig a rhaid ei gysylltu â pholisïau, protocolau a gweithdrefnau lleol. Roedd asiantaethau a gydweithredodd yn gynnar yn cydnabod pwysigrwydd gwneud hyn yn benodol. Mae hyn yn helpu staff a allai fod yn fwy profiadol mewn rhai meysydd nag eraill. Mae'n eu hatgoffa o'r darlun ehangach a sut y mae'r maes arfer penodol hwn yn weithrediad lleol o ddisgwyliadau darnau amrywiol o deddfwriaeth a pholisi mewn gwirionedd. Mae'r rhain yn cynnwys: *Deddf Plant 1989, Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf GIG a Gofal Cymunedol 1990, Deddf Hawliau Dynol 1998, Cydweithio i Ddiogelu Plant (1999),*

*Fframwaith Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd (2000), y Fframwaith Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cenedlaethol (2000) a Mynediad Teg i Wasanaethau Gofal (2002).*


Llwyddodd rhai asiantaethau i gyflawni hyn trwy leoli arweiniad neu brotocolau penodol yn y dogfennau, y protocolau neu'r llawlyfrau amddiffyn plant (CP) sy'n bodoli eisoes. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys:

- Redcar;
- Leeds;
- ACPC De Swydd Efrog;
- Redbridge.

Paratowyd protocolau ar wahân i asiantaethau eraill ynghylch gweithio gyda theuluoedd ar draws gwasanaethau iechyd meddwl, alcohol a chyffuriau. Mae'r rhain yn gwneud mwy o synwyr i weithwyr a rhieni pan fyddant wedi'u cysylltu â pholisïau a gweithdrefnau'r brif ffrwd. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Mae protocol Surrey yn cynnwys tabl cyfreithiol sy'n nodi'r cyd-destun statudol ehangach y mae'n gweithredu ynddo;
- Mae Stockton on Tees yn atgoffa staff bod "protocol yn ddull rheoli risg", gan roi gweithdrefn sy'n canolbwyntio ar y teulu yn ei chyd-destun i weithwyr iechyd meddwl sy'n gweithio gydag oedolion;
- Mae *Practice and Procedure Guidelines for Children whose Parents have Mental Health Problems* Gogledd Somerset mewn siart lliw ar gyfer gweithredu cymorth teuluol, plentyn mewn angen ac amddiffyn plant – gweler yr enghraifft.

**Cyngor Gogledd Somerset Mawrth 2001**  
**Siart Llif Plant y mae gan eu Rhieni Broblemau Iechyd Meddwl**



Roedd rhai protocolau yn ganlyniad i ddulliau newydd o weithio ar y cyd.

- Mae Bolton wedi datblygu *Child Concern Handbook* i'r holl asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant. Mae hwn yn cynnig dull gweithredu cyffredinol ar y cyd y gall gwaith gyda rhieni sydd â phroblemau iechyd meddwl, alcohol a chyffuriau berthyn iddo.

- Rhoddir nifer o ddangosyddion i weithwyr iechyd meddwl Hillingdon i'w harwain wrth iddynt wneud penderfyniadau ynghylch a oes angen asesiad sgrinio cychwynnol ar gyfer bod yn rhieni a materion yn ymwneud â phlant.
- Cynlluniwyd siart llif i gyd-fynd â phrotocol Westminster. Gweler yr enghraifft.

## Cyngor Dinas Westminster Gwasanaeth i Oedolion a Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn Cydweithio CYNLLUNIO AC ADOLYGU

### Gwasanaethau i Oedolion

#### Gwasanaeth unigol

- Parhau i ymgynghori â chydweithwyr yn y gwasanaeth arall.
- Parhau i ystyried anghenion y plentyn ac effeithiau unrhyw newidiadau.
- Cysylltu â gwasanaethau gofal sylfaenol i'r plentyn.
- Ystyried cyfeirio Gofalwyr Ifanc neu waith gyda gweithiwr YC dynodedig.
- Cyfeirio at y gwasanaeth arall ar gyfer cydweithio os bydd yr anghenion yn y teulu yn newid.

#### Gwasanaeth ar y Cyd

##### Cynllunio ar y Cyd

- Sicrhau y caiff Cynllun Amddiffyn Plant, Plentyn mewn Angen neu Gofalu am Blentyn ei integreiddio'n llawn gyda'r Cynllun Gofal i'r Oedolyn neu'r Dull Gweithredu Rhaglen Ofal.

##### Darparu Gwasanaeth

- Ystyried cyllideb wedi'i chyfuno
- Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn ystyried y rôl o fod yn rhiant ac anghenion holl aelodau'r teulu.

#### Gwaith ar y Cyd

Ei gyflawni yn ôl yr angen.

##### Adolygiad ar y Cyd

- Sicrhau y caiff Adolygiad Amddiffyn Plant, Cymorth Teuluol neu Gofalu am Blentyn ei integreiddio'n llawn gyda'r Cynllun Gofal i'r Oedolyn neu'r Adolygiad Dull Gweithredu Rhaglen Ofal.

##### Cau'r Achos

- Sicrhau bod y gwasanaeth arall yn cael ei hysbysu'n llawn os caiff yr achos ei gau gan un gwasanaeth, ac y caiff copi o'r crynodeb cau ei osod yn ffeil y gwasanaeth arall.

### Plant a Theuluoedd

#### Gwasanaeth unigol

- Parhau i ymgynghori â chydweithwyr yn y gwasanaeth arall.
- Parhau i ystyried anghenion y rhiant ac effeithiau unrhyw newidiadau.
- Cysylltu â gwasanaethau gofal sylfaenol i'r oedolyn.
- Ystyried cyfeirio Gofalwyr Ifanc neu waith gyda gweithiwr YC dynodedig.
- Cyfeirio at y gwasanaeth arall ar gyfer cydweithio os bydd yr anghenion yn y teulu yn newid.

*Mae'r protocol hwn yn cyd-fynd â gweithdrefnau ACPC ond nid yw'n eu disodli... Mae hon yn ddogfen ategol, i'w defnyddio gyda'r dull asesu iechyd meddwl pan fo plant yn y teulu....Mae angen darllen y protocol hwn ar y cyd â'ch Gweithdrefnau ACPC lleol.*

**Protocol Amddiffyn Plant ac Iechyd Meddwl Hartlepool**

### **Monitro a Hyfforddi**

Pan nodir risg arwyddocaol sy'n cynnwys y gwasanaeth arall, cofnodir hyn mewn ffurflenni asesu risg iechyd meddwl neu ffurflenni ymholiad adran 47 amddiffyn plant. Y rheolwyr tîm/goruchwylwyr sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth o ran defnyddio'r ffurflenni hyn. Rhaid tynnu sylw'r Rheolwr Gwasanaeth perthynol at unrhyw anawsterau wrth eu defnyddio. Bydd y Rheolwr Gwasanaeth Iechyd Meddwl a'r Rheolwr Gwasanaeth Plant (Gwaith maes) yn sicrhau bod y camau a gymerir yn rhai priodol, a bydd yn monitro unrhyw faterion yn ystod y cyfarfodydd monitro a gynhelir bob chwe wythnos.

**Protocol Adran Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Dosbarth Wokingham**

## **4. Bod yn hawdd i'w ddefnyddio**

Nododd y tîm nifer o nodweddion penodol eraill sy'n debygol o annog defnydd effeithiol.

### **Cynllun**

Cafwyd pedair enghraifft o gynllunio da yn y sampl, a gaiff eu hatgynhyrchu yn yr adroddiad hwn oherwydd eu bod yn hawdd i'w deall, yn hawdd eu dilyn ac yn ymddangos mor awdurdodol a hyderus ag y profodd eu cynnwys. Mae ansawdd cynhyrchu ac argraffu pob un yn uchel. Mae cynllunio da yn costio ond mae'r enghreifftiau hyn yn dangos y manteision a ddaw yn sgil hynny. Mae pob enghraifft yn edrych yn wahanol iawn, gan danlinellu pwysigrwydd addasiadau lleol i ofynion cyffredinol. Atgynhyrchir cloriau blaen y protocolau canlynol i ddangos effaith cynllunio a chynhyrchu o ansawdd uchel:

- ACPC De Swydd Efrog;
- Bolton;
- Tower Hamlets.

Atgynhyrchir protocolau o Ddwyrain Sussex yn llawn fel enghraifft o ddyllunio a chynllun yn cynorthwyo eglurder, crynoder a defnydd hwylus.



# Specific Circumstances Parents/Carers with Mental Health Problems

---

## Child factors

- Child acting as "young carer" for the parent
- No alternative or substitute care
- Impact on child's growth, development, behaviour and/or mental/physical health including alcohol/substance misuse and self-harming behaviour etc.

## Threshold

The majority of parents who suffer mental ill-health are able to care for and safeguard their child(ren). Child Protection Procedures will be needed when:-

- the parent/carer needs adversely affect their capacity to safely parent the child.
- there is insufficient alternative care for the child within the (extended) family to prevent emotional abuse (including emotional support for the child), neglect, or other incidents of abuse.

The thresholds for these forms of abuse are explained under the relevant headings, e.g. neglect involves assessment of persistence, repetition, severity and the parents' own emotional strengths and weaknesses.

## Response

Responding to child protection concerns where parents have mental health problems requires mutual responsibility by both Adults and Children's Divisions. This focuses attention on the adult mental health/child protection interface.

**"One of the main risks to children whose parents have mental health problems is the failure of adult psychiatric services and child protection agencies to understand each other and communicate adequately"** (Falkov 1995)

The concerns about communication raised by Falkov focussed on particular stages in the interface; the information gathering stage; the conferencing process and the monitoring arrangements.

Some professionals working in mental health services may not recognise the suffering of children whose parents are mentally ill as abuse or neglect.

All health practitioners and clinicians must consider the needs of the child(ren) and make effort to find out about the welfare and safety of the child via other family members, primary care services (e.g. health visitor, school nurse, GP, school staff) and/or secondary or specialist services (e.g. Social Services, CAMHs etc.)

When a child is deemed to have suffered or likely to suffer significant harm, or there are detrimental effects on the health or development of a child, a referral must be made to the Children and Families Division. A decision will be made if immediate action is required, or an initial assessment undertaken, to be discussed at a strategy meeting.

---

2.

East Sussex Area Child Protection Committee

## Specific Circumstances Parents/Carers with Mental Health Problems

---

The strategy meeting will then decide whether the threshold has been met for: -

- S.47 enquiries, a core assessment, a S.47 Child Protection Conference, or
- a core assessment to be discussed at a S.17 child-in-need meeting, or
- services for a vulnerable child.

Working at the interface between services for adults and children and families requires particular attention to be paid to the following: -

- The complexity of the systems interface and the inclusion of professionals working within each part of the system (see diagram The Systems Interface)
- Working in partnership strategies across agencies and services that facilitate and emphasise the need for clear understandings and effective communications.
- The importance of providing the opportunity for Adult Services staff to discuss concerns with Children and Families social work staff.
- Integrated assessment models.

## Diben eglur

Yn yr enghreifftiau a anfonwyd at y tîm, defnyddiwyd termau megis 'arweiniad', 'gweithdrefn' a 'phrotocol' weithiau ar gyfer dogfennau na allent weithredu fel protocol. Pan ddisgrifiwyd protocolau fel arweiniad arfer asiantaeth, roedd yn ymddangos bod hyn yn gwanhau eu statws. Roedd rhai dogfennau a llawlyfrau yn rhestru eu cynnwys yn eglur gan wahanu'r cyfarwyddiadau a'r deunydd ategol. Roedd yn ymddangos bod y rhain yn fwy eglur ac yn haws i'w defnyddio mewn amgylcheddau arfer. Gweler yr enghraifft o brotocol Westminster.

Mae protocolau a ysgrifennir ar y cyd yn debygol o elwa ar amrywiaeth o wahanol arddulliau o ran arfer. Er enghraifft, nododd y tîm bod y protocolau a oedd yn cynnwys mewnbwn iechyd yn fwy tebygol o gynnwys cwestiynau i gymell darllenwyr yn ogystal â chyfarwyddiadau eglur.

Nid oedd protocolau a ddatblygwyd ac a ysgrifennwyd ar y cyd yn cymryd y byddai'r holl staff yn gyfarwydd â'r holl fframweithiau cyfreithiol neu'r prosesau asesu yn y maes arfer cymhleth hwn. Mae hyn yn galluogi staff i deimlo'n gymwys ynghylch eu maes arfer eu hunain a deall pryderon arfer disgyblaethau eraill yn well. Er enghraifft, mae protocol Westminster yn tywys y gweithiwr trwy'r ddeddfwriaeth berthnasol, gan roi crynodeb o'i defnydd yn y math hwn o waith.

## Protocol Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn Cydweithio

Mae'r protocol hwn yn nodi ymateb yr Adran Gwasanaethau Cymunedol a Chymdeithasol i deuluoedd lle mae'r rhieni, y gofalwyr neu aelodau eraill yn y teulu sy'n oedolion yn wynebu anghenion neu anawsterau penodol y mae angen gwasanaethau neu gymorth arnynt eu hunain, a allai effeithio ar les eu plant dibynnol hefyd. Cytunwyd ar y polisi gydag Ymddiriedolaeth Iechyd Meddwl Canol a Gogledd Orllewin Llundain.

1. Egwyddorion y gwasanaeth
2. Fframwaith cyfreithiol
3. Rhannu gwybodaeth, caniatâd a chyfrinachedd
4. Cyfeirio a throthwy i wasanaethau
5. Cydweithio wrth asesu a chynllunio
6. Asesu gofalwyr ifanc
7. Rheoli trosolwg, gwneud penderfyniadau a goruchwyllo
8. Datblygiad proffesiynol
9. Siartiau Strwythur a Chysylltiadau Allweddol Cyngor Dinas Westminster

## Hygrededd

Roedd rhai protocolau'n cydnabod meysydd eraill sy'n peri gofid yn broffesiynol a sefyllfa go iawn arfer o ddydd i ddydd. Roeddynt yn rhagweld ac yn trafod problemau gan gynnig atebion.

- Mae protocol Peterborough yn cydnabod y gallai gweithwyr mewn gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion fod yn llai cyfarwydd ag ystyried materion ynghylch cynorthwyo teuluoedd. Mae'n deall y bydd gwahaniaethau'n codi o ran safbwyntiau ac mae'n cynnwys canolwyr dynodedig. Mae'n cynnwys rhestr o ffactorau i'w hystyried wrth siarad â rhieni sydd ag anawsterau iechyd meddwl.
- Mae *Child Concern Handbook* Bolton yn adnodd ar gyfer amrywiaeth eang o staff a fydd yn cael cyswllt â phlant.
- Mae protocol Brent yn gofalu nad yw'n cymryd gwybodaeth arbenigol y maes gwaith yn ganiataol ac mae'n enwi cyswllt i'r staff mewn gwasanaethau eraill. Mae angen diweddarau'r math hwn o brotocol yn rheolaidd ond mae'n cynnig atebion cadarn i sefyllfaoedd sy'n aml yn peri i staff deimlo'n ddiymadferth ac nad ydynt yn cael eu cydnabod.

*Mae gweithdrefnau amddiffyn plant yn achosi straen ac yn gallu gwaethygu problemau iechyd meddwl, sy'n gallu awgrymu risg uwch hyd yn oed na fel arall. Felly, dylai unrhyw asesiad ac ymyrraeth gael ei drin mewn ffordd sensitif iawn, gan gynnig agwedd gefnogol heb ymyrraeth ormodol cyn belled ag y bo modd.*

Surrey SSD

## 5. Helpu pobl i feddwl ac ymddwyn yn wahanol

Yn ogystal, bydd angen i brotocol effeithiol helpu gyda rhai o'r rhwystrau eraill a allai fod wedi golygu bod rhyngwynebu yn anodd. Daw'r enghreifftiau o SSDs oni nodir fel arall.

- Mae protocol Hillingdon yn cynnwys gweithio gyda theuluoedd nad ydynt yn bodloni trothwy amddiffyn plant yr asiantaeth yn benodol.
- Mae Stockton on Tees yn cynnwys datganiad cyfrinachedd yn y protocol.
- Mae protocol Northamptonshire yn dangos sut i gynnwys teuluoedd nad ydynt yn bodloni meini prawf cymhwyso ar gyfer y gwasanaeth.

Nododd y tîm rai nodweddion unigol arwyddocaol a oedd o gymorth penodol i'r staff ac a oedd yn delio â materion allweddol, gan nodi dulliau newydd o weithio yn aml.

- Mae nifer o brotocolau'n delio â'r sefyllfa ymarferol o gynllunio gofal ar y cyd ac ariannu pecynnau gofal.
  - ◆ Mae protocol Barking a Dagenham yn nodi'r angen i feddu ar fecanweithiau i lunio cynlluniau gofal integredig.
  - ◆ Mae protocol Northampton yn cynnwys adran ar faterion ariannol, gan gydnabod y bydd rhai teuluoedd yn croesi'r ffiniau adrannol arferol. Ni ddylid cynnal trafodaethau ariannol yng ngŵydd y teulu a dylid ystyried rhannu costau.
  - ◆ Mae protocol Southwark yn ffurfioli cyfrifoldebau ar y cyd a rhannu costau gan roi arweiniad eglur ar ddyrannu arian a rheoli'r pecyn gofal.

- ◆ Mae protocol Westminster yn rhoi cyfarwyddiadau eglur ar gyfer trefniadau cyllidebu wrth gau achosion, unrhyw drefniadau trosglwyddo gwasanaeth a newidiadau eraill i'r gwasanaeth.
- Mae ACPC De Swydd Efrog yn dweud bod yn rhaid i staff iechyd meddwl nodi rhieni yn eu baich achosion ac ystyried anghenion y plant gan ddefnyddio *The Framework for the Assessment of Children in Need and their Families* (2000) yn ystod sesiynau goruchwylio. Dylai staff nad ydynt yn ymwneud â gwasanaethau i deuluoedd a phlant fod yn gallu ymgynghori ag ymgynghorwyr plant neu'r Ymgynghorydd Amddiffyn Plant yn eu gweithle.
- Mae protocol Southwark yn dweud y dylai timau iechyd meddwl cymunedol gynnal asesiadau systematig o blant mewn teuluoedd lle y mae gan yr oedolyn afiechyd meddwl. Dylent ystyried anghenion y rhieni sy'n deillio o'u cyfrifoldebau fel rhieni yn ogystal â'u hafiechyd meddwl. Dylent weithio gyda thimau teulu a phlant neu gyfeirio atynt pan fo hynny'n briodol.
- Mae protocol Hillingdon yn nodi y dylai gweithwyr iechyd meddwl ystyried cyfrifoldebau defnyddwyr y gwasanaeth fel rhieni, ac mae'n disgrifio'r broses gyfeirio i wasanaethau plant a theuluoedd.
- Mae protocol Hampshire yn cynnwys "cyngor asesu gallu rhieni i fagu plant" ar gyfer gweithwyr iechyd meddwl.
- Mae protocol Wokingham yn nodi y dylid sicrhau llinellau cyfrifoldeb eglur a'r angen i ystyried y teulu cyfan – "ystyriwch y teulu".
- Mae polisi rhwng asiantaethau Swydd Rhydychen yn cynnwys meini prawf cymhwyso sy'n cynnwys hawl oedolyn i gael cymorth yn ei rôl fel rhiant os yw ei blentyn yn bodloni meini prawf "plentyn mewn angen" neu beidio. Yn ogystal, mae'n delio â'r mater o barhau i roi cymorth priodol i rieni pan geir pryderon ynghylch amddiffyn plant.
- Mae rhai protocolau, rhai Northamptonshire a Swydd Rhydychen yn enwedig, yn mabwysiadu dull gweithredu cynhwysol tuag at anghenion magu plant yr holl rai sy'n anabl neu'n sâl am ba reswm bynnag. Mae protocol Northamptonshire yn "cynnwys yr holl rieni sydd ag anabledd a salwch corfforol, gan gynnwys anabledd dysgu, dibyniaeth ac sy'n gaeth i rywbeth, ac anawsterau'n ymwneud ag iechyd meddwl neu anhwylder personoliaeth." Mae'r protocol yn cefnogi hawl pobl anabl i gyflawni eu rôl a'u cyfrifoldebau fel rhieni, yn ogystal â hawl plant i fyw mewn amgylchedd diogel, sy'n bodloni eu hanghenion.
- Mae Swydd Rhydychen yn mabwysiadu dull gweithredu tebyg, oherwydd bod "rhieni yn wynebu mwy o rwystrau i gyfranogi na'u cymheiriaid nad ydynt yn anabl, a'u bod fel rhieni yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan ddiffyg hyblygrwydd yn y gwasanaeth a ddarperir," ac mae'n nodi y dylai: "Asesiad o'r rhiant(rhieni) sâl/anabl nodi'r cymorth y mae ei angen i alluogi rhieni i fodloni eu cyfrifoldebau magu plant."

# Defnyddio'r Protocol

## Ei gael ar y ddesg

Yn aml, dywedodd staff sydd â chyfrifoldeb allweddol dros y protocolau trefniadol wrth y tîm nad oeddent wedi rhoi digon o sylw, amser, cynllunio nac adnoddau ariannol i ledaenu'r protocolau. Disgrifiodd un rheolwr gwasanaethau cymdeithasol y broses o baratoi protocol fel hyn: "Camp ynddo'i hun. Mae rhywun yn anadlu'n ddwfn ac yna'n sylweddoli bod cam arall... lledaenu a gweithredu."

Roedd yn ymddangos bod rhai adrannau'n mesur llwyddiant eu protocolau yn ôl sawl can copi a ddsbarthwyd ganddynt. Mae dosbarthu eang ar draws adrannau ac mewn adrannau yn hanfodol ond nid yw'n dilyn yn awtomatig y byddant yn cael eu darllen, eu deall a'u gweithredu. Mae angen sicrhau cyllideb ddigonol i gynhyrchu llawer o gopiâu ond mae angen strategaeth eglur i sicrhau bod y protocolau'n cyrraedd y staff hefyd a'u bod yn gwybod amdanynt. Nid yw sicrhau bod copi "ar gael" ym mynd i weithio ar ei ben ei hun.

Mae hyfforddi staff ynghylch protocolau newydd yn bwysig ond nid dyma'r unig ffordd o sicrhau eu bod yn deall ac yn "berchen" ar brotocolau. Yn aml, rhoddir gormod o bwyslais ar hyfforddiant fel y prif fodd o ledaenu a gweithredu. Mae perchnogaeth y rheolwyr a'u defnyddio gan reolwyr yr un mor bwysig.

Mae angen i amrywiaeth o fecanweithiau fod ar waith er mwyn sicrhau bod protocol yn cael ei ledaenu a'i weithredu. Mae'r canlynol yn

hanfodol: bod yr adnoddau ar gael; hyfforddiant; digwyddiadau lansio cyhoeddus a chyhoeddusrwydd; trafodaethau mewn cyfarfodydd tîm; eu cynnwys yn nhrefniadau sefydlu staff newydd; a chyfeirio atynt yn rheolaidd wrth oruchwylio.

Os bu defnyddwyr y gwasanaeth yn ymwneud â'r gwaith o lunio'r protocolau, gallant gyfrannu wrth eu gweithredu. Gall gwybodaeth defnyddwyr gwasanaethau ynghylch protocolau y cytunwyd arnynt fod yn bwerus iawn wrth eu gweithredu a sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn ymarferol o ddydd i ddydd. Dylai protocolau fod ar gael gymaint ag y bo modd i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Roedd y tîm yn pryderu ynglŷn â'r diffyg sylw oedd yn cael ei roi i fethu cydymffurfio â phrotocolau a'r modd y gallai hynny effeithio ar arfer. Nid yw canlyniadau methu cydymffurfio o ran yr effaith ar deuluoedd, ac unrhyw gosbau i weithwyr yn cael eu hegluro'n iawn.

Rhaid i'r protocolau wneud synnwyr i staff prysur ac aelodau teuluoedd a allai fod yn pryderu ac yn gofidio. Ni weithredir dogfennau a chyfarwyddiadau sy'n hir, yn anodd i'w darllen neu'n anodd i'w dilyn. Rhaid i brotocolau arwain y ffordd i arfer gorau. Nid eu prif ddiben yw bod yn amddiffyniad i staff na'r sefydliad, er y dylai protocolau effeithiol warchod rhag arfer gwael i ddefnyddiwr y gwasanaeth a darparwr y gwasanaeth.

## Sicrhau llwyddiant

Rhaid sicrhau bod protocolau, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys gwybodaeth ffeithiol, yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Mae angen i'r mwyafrif o sefydliadau ddiweddarau a gwella'u gweithgareddau i gynnal a chadw protocolau. Mae paratoi a defnyddio protocolau yn broses ddynamig. Fodd bynnag, ystyrir bod monitro a chynnal a chadw yn llai cyffrous a chreadigol na llunio protocol.

Gall llunio protocolau defnyddiol a "berchenogir" fod yn broses gostus sy'n cymryd cryn amser. Gall addasu protocolau o rai sydd eisoes wedi gwneud llawer o'r gwaith sylfaenol gyflymu'r broses, ond mae'n rhaid i brotocolau o'r fath fod yn berthnasol i amgylchiadau lleol, ni ddylai'r manteision o ran effeithlonrwydd fod ar draul prosesau cydweithio lleol.

Mae angen i drefniadau costio ystyried yr angen parhaus am gynnal a chadw. Mae angen cynllunio protocolau er mwyn gallu eu haddasu ar gyfer y newidiadau sy'n digwydd mewn arfer, polisïau ac yn y gyfraith yn barhaus.

## Sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol

Mae'n debygol y bydd gwasanaethau'n parhau i newid a nodir bylchau mewn polisi, arfer a phrotocolau sylfaenol yn barhaus. Mae'n hanfodol felly, bod uwch reolwyr ac ymarferwyr yn neilltuo amser i adolygu arfer yn rheolaidd.

Rhaid sicrhau bod ffocws ar ddefnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd gwerthuso. Mae cyfranogiad defnyddwyr y gwasanaeth a staff rheng flaen yn hollbwysig. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso a yw plant unigol,

eu teuluoedd a'u gofalwyr yn cael y cymorth y maent yn dymuno'i gael ac y mae ei angen arnynt. I bawb dan sylw, mae angen systemau i sicrhau bod trefniadau i ymyrryd gan y gwasanaeth yn briodol. Mae hyn yn gofyn am systemau sy'n nodi defnyddwyr gwasanaethau i oedolion sy'n rhieni yn ogystal â nifer y teuluoedd mewn gwasanaethau plant lle y mae gan rieni broblemau iechyd meddwl ac alcohol. Byddai dangosydd perfformiad sy'n nodi nifer y rhieni anabl, gan gynnwys y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl neu alcohol y mae'r gwasanaethau'n ymwybodol ohonynt, yn cynorthwyo'r datblygiad hwn.

Mae archwiliadau ac adolygiadau gwasanaeth lleol yn cynnwys arfarniad o'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch y gwasanaeth fel arfer. Gall hyn gynnwys ystod eang gan gynnwys: gwybodaeth sy'n benodol i wasanaeth; polisïau gweithredol; gweithdrefnau ac arweiniad arfer; cyfranogiad defnyddwyr y gwasanaeth; asesiad mynediad; y gwasanaeth sydd ar gael; staffio a strategaethau ar gyfer datblygiad staff ar y cyd; enghreifftiau o arfer da; materion cynllunio ac ansawdd gofal. Gall yr arfarniad archwilio ofyn a oes protocolau arfer a pholisïau gweithredol ysgrifenedig; ar gyfer pwy y mae'r rhain a sut a phryd y maent ar gael. Gall ofyn ynghylch sut y lluniwyd y rhain, pa mor aml a phwy sy'n eu hadolygu, a sut y dosberthir y fersiynau mwyaf diweddar.

Ni chynhyrchwyd unrhyw un o'r enghreifftiau o'r protocolau yn y sampl gan gynnwys gwybodaeth i deuluoedd, er y dylai hyn fod yn bosibl, a dylai fod yn ofynnol. Gallai cyfranogiad defnyddwyr y gwasanaeth fod wedi sicrhau hyn trwy:

- helpu i ddiffinio anghenion, canlyniadau a'r tasgau ar gyfer cynnwys protocolau;
- cael fersiynau o'r protocol y gellir eu defnyddio'n rhwydd, gan nodi'r hyn sydd i'w ddisgwyl – o ran hawl i gael gwybodaeth ond yn ogystal, fel ffordd o sicrhau atebolrwydd, gweithredu a chydymffurfio;
- cyfranogi wrth fonitro a gwerthuso.

Dylai gwerthuso ddelio â phrosesau a chanlyniadau gwasanaethau, i deuluoedd unigol a'r holl grwpiau o ddefnyddwyr ar draws sbectrwm y gwasanaethau. Mae hyn yn dod yn fwyfwy cymhleth wrth i wasanaethau ymrannu ac wrth i gysylltiadau newydd ddod i'r amlwg rhwng gwasanaethau plant a theuluoedd a'r ymddiriedolaethau gofal newydd, ynghyd â gwasanaethau amlddisgyblaethol i wasanaethau ieuchyd meddwl ac alcohol i oedolion.

### Yn anad dim, cofiwch:

- ni fydd protocolau ar eu pen eu hunain yn sicrhau arfer da. Un dull yn unig ydynt, nid yr unig un;
- mae gofal cymdeithasol yn alwedigaeth gymhleth ac mae'n rhaid i asiantaethau ddarparu protocolau i helpu staff a theuluoedd ac mae'n rhaid iddynt sicrhau bod staff yn eu defnyddio. Nid yw protocolau yn ddewis ychwanegol ond yn hytrach, yn rhan o arfer da;
- ni ddylai asiantaethau aros am sefyllfaoedd difrifol, megis marwolaeth plentyn, cyn datblygu protocolau;
- gall protocolau ymddangos fel ffordd o reoli pobl o bell, a ysgrifennir gan

bobl nad ydynt yn gyfrifol am y gwaith o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae defnyddio protocolau wedi'u cynllunio'n dda yn rheolaidd y mae staff wedi helpu i'w datblygu, yn rhoi gwell ymdeimlad o reolaeth iddynt dros eu gwaith;

- bydd materion yn ymwneud â phŵer ac annibyniaeth o'r pwys mwyaf i ddefnyddwyr y gwasanaethau hyn, ac yn yr un modd â staff y linell flaen, bydd eu cyfranogiad wrth osod safonau a datblygu a gwerthuso polisi a phrotocol yn helpu i ddatrys rhai o'r materion hyn.

# Cyfeiriadau

Yr Adran Iechyd, yr Adran Addysg a Chyflogaeth, y Swyddfa Gartref (1999) *Working Together to Safeguard Children. A guide to inter-agency working to safeguard and promote the welfare of children*, Llundain: Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Yr Adran Iechyd, yr Adran Addysg a Chyflogaeth, y Swyddfa Gartref (2000) *Framework for the Assessment of Children in Need and their Families*, Llundain: Yr Adran Iechyd.

Falkov, A (gol) (1998) *Crossing Bridges: Training resources for working with mentally ill parents and their children. Reader – for managers, practitioners and trainers*, Llundain: Yr Adran Iechyd.

Local Government Drug Forum and Standing Conference on Drug Abuse (1997) *Drug using parents. Policy guidelines for interagency working*, Llundain: Cymdeithas Llywodraeth Leol.

Mayes, K, Diggins, M a Falkov, A (1998) *Crossing Bridges: Training resources for working with mentally ill parents and their children. Trainer*, Llundain: Yr Adran Iechyd.

Robinson, W a Dunne, M (1999) *Alcohol Child Care and Parenting. A handbook for practitioners*, Llundain: NSPCC Llundain.

Wates, M (2002) *Supporting disabled adults in their parenting role, Efrog*: Josph Rowntree Foundation.

**Hoffem ddiolch i'r sefydliadau canlynol, a'u partneriaid lleol, am eu caniatâd i ddyfynnu eu gwaith yn y ddogfen hon. Mae'r asiantaethau a nodir fel arfer yn cynrychioli consortiwm ymdrech lleol rhwng asiantaethau iechyd, tai ac anstatudol gan ddangos amrywiaeth y partneriaethau cydweithio a welsom.**

Pwyllgor Amddiffyn Plant Ardal Bolton  
Cyngor Bwrdeistref Bournemouth

Cyngor Bwrdeistref Llundain Brent  
Adran Gwasanaethau Cymdeithasol  
Bwrdeistref Llundain Camden

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Sir Dorset

Pwyllgor Amddiffyn Plant Ardal Dwyrain  
Sussex

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Sir Hampshire

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Bwrdeistref Hartlepool

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol  
Bwrdeistref Llundain Hillingdon

Cyngor Dinas Leeds

Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cyngor Sir  
Northamptonshire

Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai  
Cyngor Gogledd Somerset

Cyngor Sir Northumberland

Pwyllgor Amddiffyn Plant Ardal Dinas  
Nottingham

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol  
Swydd Rhydychen

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol  
Peterborough

Gwasanaeth Plant a Theuluoedd Cyngor  
Bwrdeistref Llundain Redbridge

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Bwrdeistref Redcar a Cleveland

Pwyllgor Amddiffyn Plant Ardal De  
Swydd Efrog

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Bwrdeistref Llundain Southwark

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Bwrdeistref Stockton on Tees

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Sir Surrey

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a  
Thai Bwrdeistref Swindon

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Bwrdeistref Llundain Tower  
Hamlets

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Dinas Westminster

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Dosbarth Wokingham

**Mae fersiynau Saesneg,  
Braille, tâp, print mawr a  
hawdd i'w ddarllen o'r papur  
hwn ar gael ar gais.**





Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth

Gwell arfer ar sail gwell gwybodaeth

Social Care Institute for Excellence  
1st Floor, Goldings House  
2 Hays Lane, London SE1 2HB

Ffôn: 020 7089 6840

Ffacs: 020 7089 6841

[www.scie.org.uk](http://www.scie.org.uk)